OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1806 (Cy.174)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*7 Gorffennaf 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Gorffennaf 2008*
Yn dod i rym - -	*30 Gorffennaf 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 66(1), 68(1), 74A ac 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**).

Cafwyd ymgynghori yn ystod cyfnod paratoi'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**2**) sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

Enwi a Chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 30 Gorffennaf 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006

2.—(1) Mae Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006(**3**) wedi'u diwygio'n unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn nheitl testun Cymraeg Atodlen 7 mewnosoder "ac a fwriedir" ar ôl "a ganiateir".

(3) Ym Mhennod A o Atodlen 7 (bwydydd anifeiliaid a ganiateir ac a fwriedir at ddibenion maethiadol penodol a darpariaethau ynghylch eu defnyddio), yn lle'r eitemau ynghylch lleihau'r risg o dwymyn llaeth, rhodder yr eitemau a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1970 p.40. Mae adran 66(1) yn cynnwys diffiniadau o'r ymadroddion "the Ministers", "prescribed" a "regulations"; Diwygiwyd y diffiniad o "the Ministers" gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S.1978/272), Atodlen 5, paragraff 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 a throsglwyddwyd hwy wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Mewnosodwyd adran 74A gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), Atodlen 4, paragraff 6.

(**2**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

(**3**) O.S. 2006/116 (Cy. 14), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/617 (Cy. 69), O.S. 2006/2928 (Cy. 263), O.S. 2006/3256 (Cy. 296) ac O.S. 2007/3171 (Cy. 277).

Gwenda Thomas
O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

7 Gorffennaf 2008